Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Cynyddu'r ddarpariaeth Cymorth Cyfreithiol yng Nghymru

Cyfeirnod y cymhorthdal SC11124 - cynllun i ddiogelu gwasanaethau i bobl agored i niwed a'r ymrwymiad i weithredu Cynllun Gweithredu Cymru Gwrth-hiliol yn llawn.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 16 Rhagfyr 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 16 Rhagfyr 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynyddur-ddarpariaeth-cymorth-cyfreithiol-yng-nghymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# Cynnwys


**Pwyntiau i'w nodi** (https://www.llyw.cymru#161180)

**Rhanbarth** (https://www.llyw.cymru#161182)

**Enw** (https://www.llyw.cymru#161184)

**Sail gyfreithiol** (https://www.llyw.cymru#161186)

**Amcanion** (https://www.llyw.cymru#161188)

**Awdurdodau cyhoeddus** (https://www.llyw.cymru#161190)

**Cymhwysedd** (https://www.llyw.cymru#161192)

**Sectorau** (https://www.llyw.cymru#161194)

**Hyd** (https://www.llyw.cymru#161196)

**Cyllideb** (https://www.llyw.cymru#161198)

**Ffurf y cymorth** (https://www.llyw.cymru#161200)

**Telerau ac amodau** (https://www.llyw.cymru#161202)

**Cyfrifo cymorthdaliadau** (https://www.llyw.cymru#161204)

**Uchafswm y cymhorthdal** (https://www.llyw.cymru#161206)



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynyddur-ddarpariaeth-cymorth-cyfreithiol-yng-nghymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

## **Gwybodaeth gysylltu** (https://www.llyw.cymru#161208)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynyddur-ddarpariaeth-cymorth-cyfreithiol-yng-nghymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# Pwyntiau i'w nodi

Os ydych yn defnyddio'r cynllun hwn i ddyfarnu cymorthdaliadau, rhaid ichi roi gwybod i'r Uned Rheoli Cymorthdaliadau drwy anfon e-bost i: **scu@gov.wales** (https://www.llyw.cymrumailto:scu@gov.wales).

# 1. Rhanbarth

Cymru gyfan

# 2. Enw'r Cynllun Cymhorthdal

Cynyddu'r ddarpariaeth Cymorth Cyfreithiol yng Nghymru

# 3. Sail gyfreithiol y DU

Adran 60(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

# 4. Amcanion polisi penodol y cynllun

Mae'r cynllun hwn yn cefnogi nod Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru sef bod yn Genedl Noddfa, ac yn cyd-fynd â'r nod yn y Rhaglen Lywodraethu o ddiogelu, ailadeiladu a datblygu gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed a'r ymrwymiad i weithredu'n llawn Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (sy'n cynnwys pennod ar fod yn Genedl Noddfa).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynyddur-ddarpariaeth-cymorth-cyfreithiol-yng-nghymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn ymrwymo i sicrhau bod cyngor cyfreithiol ar fewnfudo yn cael ei ddarparu yng Nghymru.

Mae'r cynnig hefyd yn cefnogi nodau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chydraddoldeb a hawliau dynol a chyflawni ei dyletswyddau cyfreithiol yn y maes hwn, gan gynnwys Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, drwy alluogi Llywodraeth Cymru ac eraill i fonitro a gwella'r gwaith o integreiddio mudwyr o fewn ein cymunedau.

Mae Cymru o dan anfantais ddifrifol, o'i chymharu â rhannau eraill o'r DU, o ran y ddarpariaeth gyfreithiol ar fewnfudo (yn enwedig y ddarpariaeth ddi-dâl).

O ystyried bod llawer o unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau cyngor cyfreithiol yn ddiymgeledd neu mewn sefyllfa anodd gyda diffyg statws ni fyddai'n ymarferol iddynt deithio sawl milltir i gael gafael ar wasanaethau. Mae llawer hefyd yn wynebu rhwystrau o ran iaith a thechnoleg. Mae hyn i gyd yn cael effaith gronnol, ee canlyniadau niweidiol o ran iechyd meddwl ac iechyd corfforol neu gyfnod hwy o amser pan fydd gofyn i'r ceisiwr lloches ddibynnu ar gymorth y wladwriaeth yn hytrach na cheisio bod yn hunangynhaliol drwy gael ei gyflogi. Gellid dadlau ar sail hynny y byddai'r baich cynyddol hwn ar adnoddau cyfyngedig y wladwriaeth yn gwrthbwyso yn hawdd y swm bychan o gyllid sy'n cael ei ddyfarnu.

Bydd y cyllid yr ydym yn ei ddarparu yn cryfhau ac yn cynyddu capasiti ar gyfer y gwasanaeth cynghori di-dâl y mae Asylum Justice eisoes yn ei gynnig (sy'n boddi o dan y llwyth gwaith ar hyn o bryd oherwydd penderfyniadau diweddar Llywodraeth y DU yn y maes hwn).

Bydd y cyllid ar gyfer Eastgate Chambers yn lleihau baich gweinyddol yr achosion cymorth cyfreithiol ar y cynghorwyr cyfreithiol. Bydd hyn yn caniatáu iddynt ymgymryd ag achosion cymorth cyfreithiol ychwanegol. Bydd yr hyfforddiant a'r lleoliadau gwaith a gynigir gan Newfields Law yn helpu i ddenu myfyrwyr i faes cyfraith mewnfudo yn y gobaith y bydd y ddarpariaeth yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynyddur-ddarpariaeth-cymorth-cyfreithiol-yng-nghymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

cynyddu yn y dyfodol er mwyn ateb y galw.

## 5. Yr Awdurdod cyhoeddus sydd wedi'i awdurdodi i roi'r Cynllun ar waith

Llywodraeth Cymru

## 6. Categorïau o fentrau sy'n gymwys

Cynghorwyr Cyfreithiol ar Fewnfudo

## 7. Sector(au) a gefnogir

Gweithgareddau gweinyddol a gwasanaethau cymorth

## 8. Hyd y cynllun

12 Mehefin 2024 i 31 Awst 2026

## 9. Cyllideb ar gyfer cymorth o dan y cynllun

£141,600

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynyddur-ddarpariaeth-cymorth-cyfreithiol-yng-nghymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

## 10. Ffurf y cymorth

Bydd yr holl gymhorthdal a ddyfernir o dan y Cynllun yn cael ei ddyfarnu drwy grantiau.

## 11. Telerau ac amodau cymhwysedd

Rhaid i sefydliad weithio yn y Sector Cyfraith Mewnfudo yng Nghymru.

## 12. Y sail ar gyfer cyfrifo cymorthdaliadau

Mae pob sefydliad wedi darparu ei nodau ar gyfer y cyfnod cyllido a dadansoddiad llawn o'r costau sydd eu hangen i gyflawni ei amcanion. Bydd y rhain yn cael eu monitro'n chwarterol gan swyddogion polisi.

## 13. Uchafswm y cymhorthdal a ganiateir o dan y cynllun

£61,500

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynyddur-ddarpariaeth-cymorth-cyfreithiol-yng-nghymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# 14. Gwybodaeth gysylltu

**Yr Uned Rheoli Cymorthdaliadau**

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Y Deyrnas Unedig

**Rhif ffôn:** + 44 (0)3000 604 400
**E-bost:** **YrUnedRheoliCymorthdaliadau@llyw.cymru**
(https://www.llyw.cymrumailto:YrUnedRheoliCymorthdaliadau@llyw.cymru)

Rydym yn croesawu galwadau a gohebiaeth yn Gymraeg.

Uned Rheoli Cymorthdaliadau
Subsidy Control Unit

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hygyrchedd-llywcymru) i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynyddur-ddarpariaeth-cymorth-cyfreithiol-yng-nghymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).